O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2706 (Cy. 290)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 44 (Lôn-las) i Gyffordd 47 (Penlle'r-gaer), Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *10 Tachwedd 2011* |
| *Yn dod i rym* | *21 Tachwedd 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd gael ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Tachwedd 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 44 (Lôn-las) i Gyffordd 47 (Penlle'r-gaer), Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 21 Tachwedd 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn(au) o'r draffordd" *("the length(s) of the motorway")* yw'r darnau hynny o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond yn ystod yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y mae'n cyfeirio ato yn weithredol.

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 10 Tachwedd 2011

*G R Morgan*
**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan).

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach).

Y darn o brif gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyn ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan) hyd at drwyn ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 44 (Lôn-las), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 45.

Y darn o brif gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyn ffisegol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 44 (Lôn-las) hyd at drwyn ffisegol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 44.

Y darn o brif gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyn ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach) hyd at drwyn ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46.

Y darn o brif gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyn ffisegol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan) hyd at drwyn ffisegol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 45.

Y darn o brif gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyn ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 47 (Penlle'r-gaer) hyd at drwyn ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach).

Y darn o brif gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyn ffisegol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach) hyd at drwyn ffisegol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 47 (Penlle'r-gaer).